# Pecyn Dogfennau Cyhoeddus

**Penallta House,**
Tredomen Park,
Ystrad Mynach,
Hengoed CF82 7PG

**Tŷ Penallta,**
Parc Tredomen,
Ystrad Mynach,
Hengoed CF82 7PG

CAERPHILLY COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI

www.caerphilly.gov.uk
www.caerffili.gov.uk

Am unrhyw ymholiad yn ymwneud â'r agenda hwn cysylltwch â Charlotte Evans
(Rhif Ffôn: 01443 864210   Ebost: evansca1@caerphilly.gov.uk)

**Dyddiad: Dydd Mercher, 23 Hydref 2019**

Annwyl Syr/Fadam,

Bydd cyfarfod **Cabinet** yn cael ei gynnal yn **Ystafell Sirhywi, Tŷ Penallta, Tredomen, Ystrad Mynach** ar **Dydd Mercher, 30ain Hydref, 2019** am **10.30 am**. i ystyried materion a gynhwysir yn yr agenda canlynol. .  Mae croeso i chi ddefnyddio'r iaith Gymraeg yn y cyfarfod, a dylid rhoi cyfnod rhybudd o 3 diwrnod gwaith os ydych yn dymuno gwneud hynny.  Bydd cyfieithu ar y pryd yn cael ei ddarparu ar gais..

| |
|---|
| Mae pob cyfarfod Pwyllgor yn agored i'r Wasg a'r Cyhoedd. Gofynnir i arsylwyr a chyfranogwyr ymddwyn gyda pharch ac ystyriaeth at eraill. Sylwer y bydd methu â gwneud hynny yn golygu y gofynnir i chi adael y cyfarfodydd ac efallai y cewch eich hebrwng o'r safle. |

**Christina Harrhy**
PRIF WEITHREDWR DROS DRO

**A G E N D A**

Tudalennau

1 I dderbyn ymddiheuriadau am absenoldeb

2 Datganiadau o Ddiddordeb.

Atgoffi'r Cynghorwyr a Swyddogion o'u cyfrifoldeb personol i ddatgan unrhyw fuddiannau personol

a/neu niweidiol mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes ar yr agenda hwn yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a'r Cod Ymddygiad ar gyfer Cynghorwyr a Swyddogion.

I gymeradwyo a llofnodi'r cofnodion canlynol:-

3 Cynhaliwyd y Cabinet ar 16eg Hydref 2019. 1 - 8

I dderbyn ac ystyried yr adroddiad(au) canlynol y mae angen penderfyniadau gweithredol arnynt: -

4 Datblygiad Gerddi'r Siartwyr, Pontllanfraith. 9 - 16

5 Nodi- Blaenraglen Waith y Cabinet. 17 - 20

**Cylchrediad:**

Cynghorwyr
C.J. Cuss, N. George, C.J. Gordon, Mrs B. A. Jones, P.A. Marsden, S. Morgan, L. Phipps a Mrs E. Stenner,

A Swyddogion Priodol.

**SUT FYDDWN YN DEFNYDDIO EICH GWYBODAETH**

Bydd yr unigolion hynny sy'n mynychu cyfarfodydd pwyllgor i siarad/roi tystiolaeth yn cael eu henwi yng nghofnodion y cyfarfod hynny, weithiau bydd hyn yn cynnwys eu man gweithio neu fusnes a'r barnau a fynegir. Bydd cofnodion o'r cyfarfod gan gynnwys manylion y siaradwyr ar gael i'r cyhoedd ar wefan y Cyngor ar www.caerffili.gov.uk. ac eithrio am drafodaethau sy'n ymwneud ag eitemau cyfrinachol neu eithriedig.

Mae gennych nifer o hawliau mewn perthynas â'r wybodaeth, gan gynnwys yr hawl i gael mynediad at wybodaeth sydd gennym amdanoch a'r hawl i gwyno os ydych yn anhapus gyda'r modd y mae eich gwybodaeth yn cael ei brosesu.

Am wybodaeth bellach ar sut rydym yn prosesu eich gwybodaeth a'ch hawliau, ewch i'r Hysbysiad Preifatrwydd Cyfarfodydd Pwyllgor Llawn ar ein gwefan http://www.caerffili.gov.uk/Pwyllgor/Preifatrwydd neu cysylltwch â Gwasanaethau Cyfreithiol drwy e-bostio griffd2@caerffili.gov.uk neu ffoniwch 01443 863028.

# Y CABINET

## COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD YN NHŶ PENALLTA, TREDOMEN DDYDD MERCHER, 16 HYDREF 2019 AM 10.30 A.M.

---

YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd B. Jones – Cadeirydd

Y Cynghorwyr:

C. Cuss (Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles), N. George (Gwasanaethau Cymdogaethau), C. J. Gordon (Gwasanaethau Corfforaethol), P. Marsden (Addysg a Chyflawniad). S. Morgan (Economi, Seilwaith a Chynaliadwyedd), L. Phipps (Cartrefi a Lleoedd) ac E. Stenner (Yr Amgylchedd a Diogelu'r Cyhoedd).

Ynghyd â:

C. Harrhy (Prif Weithredwr Dros Dro), R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol), D. Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai), M. S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro – Cymunedau), S. Harris (Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Gwella Busnes a Swyddog Adran 151 Dros Dro).

Hefyd yn bresennol:

C. Edwards (Rheolwr Iechyd yr Amgylchedd), R. Roberts (Rheolwr Gwella Busnes), J. Reynolds (Rheolwr Cyfleusterau Chwaraeon a Hamdden), J. Lougher (Rheolwr Datblygu Chwaraeon a Hamdden), S. Jones (Arweinydd Tîm Ardal – Canolfan Hamdden Trecelyn), M. Williams (Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Eiddo), D. Lucas (Arweinydd Tîm, Cynllunio Strategol), R. Tranter (Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro) a C. Evans (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor).

N. Jenkins (Swyddfa Archwilio Cymru)

**1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Ni chafwyd yr un ymddiheuriad am absenoldeb.

**2. DATGANIADAU O FUDDIANT**

Ni wnaed unrhyw ddatganiadau ar ddechrau nac yn ystod y cyfarfod.

Holodd un o'r Aelodau ynghylch y datganiadau buddiant yn yr adroddiad o ran Eitem 8 ar yr Agenda – Tir ar Werth yn Ystad Ddiwydiannol Pontymister, gan nodi bod Aelod wedi datgan buddiant personol a rhagfarnus, ond ei fod wedi cael siarad yn y cyfarfod. Dywedodd y Swyddog Monitro fod y Cod Ymddygiad yn caniatáu i Aelodau aros yn dilyn datganiad o fuddiant personol a rhagfarnus os yw aelod o'r cyhoedd hefyd yn siarad ar yr eitem, ond byddai'n rhaid i'r aelod adael y cyfarfod yn syth ar ôl gwneud ei sylw.

**3. CABINET – 2 HYDREF 2019**

PENDERFYNWYD cymeradwyo bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Hydref 2019 yn gofnod cywir.

**MATERION Y MAE ANGEN GWNEUD PENDERFYNIADAU GWEITHREDOL YN EU CYLCH**

**4. ADRODDIAD GWELLA BLYNYDDOL 2018/19**

Cafodd yr Adroddiad Gwella Blynyddol, fel y'i hatodir i'r adroddiad yn Atodiad A, ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio ar 15 Hydref 2019, ac roedd yn rhoi manylion y negeseuon allweddol o Adroddiad Gwella Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r Adroddiad Gwella Blynyddol yn pwyso a mesur a ydym wedi cydymffurfio â'n dyletswydd statudol yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus', ac a ydym yn debygol o wneud hynny.

Nododd y Cabinet fod yr Adroddiad Gwella Blynyddol yn ddeublyg. Mae'n crynhoi'r gwaith a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru yn ystod y flwyddyn 2018-19, ac yn rhoi barn y rheolydd ynghylch a fyddwn yn cydymffurfio â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Ar gyfer 2018-19 dyfarniad Swyddfa Archwilio Cymru oedd:

**"Mae'r Cyngor yn bodloni ei ofynion statudol mewn perthynas â gwelliant parhaus, ac mae ar bwynt canolog hollbwysig o ran ei uchelgais i drawsnewid"**
Yn seiliedig ar y gwaith a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr perthnasol, ac yn gyfyngedig i'r gwaith hwnnw, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn credu bod y Cyngor yn debygol o gydymffurfio â Mesur Llywodraeth Leol (2009) yn ystod 2019-20."

Nodwyd bod y Cyngor bellach ar bwynt canolog hollbwysig o ran ei uchelgais i drawsnewid, a bod ganddo gyfleoedd sylweddol i wneud hyn yn gyflym trwy ei raglen drawsnewid, Tîm Caerffili, er mwyn troi ei uchelgeisiau yn gamau gweithredu ac yn ganlyniadau gwell i'w ddinasyddion erbyn 2022.

Ystyriodd y Cabinet bob un o'r materion a nodwyd yn yr adroddiad yn Arddangosyn 1: gwaith archwilio, rheoleiddio ac arolygu yr adroddwyd arno yn ystod 2018-19, gan nodi meysydd datblygu lle y'u hadnabuwyd ac unrhyw argymhellion er mwyn bodloni Argymhellion Cenedlaethol.

Diolchodd y Cabinet i'r Swyddog am yr adroddiad a nododd fod y Pwyllgor Archwilio wedi cytuno ar yr adroddiad a'i gymeradwyo yn ei gyfarfod ar 15 Hydref 2019.

Wrth drafod yr wybodaeth archwilio perfformiad leol yn seiliedig ar risgiau, a'r gwaith dilynol o ran Safon Ansawdd Tai Cymru, nodwyd bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud o ran Rhaglen Safon Ansawdd Tai Cymru, a bod y rhaglen ar y trywydd iawn er mwyn cydymffurfio'n llawn ym mis Mehefin 2020.

Trafodwyd Cynaliadwyedd Ariannol a holodd un o'r Aelodau a oedd trafodaethau wedi cael eu cynnal â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Esboniodd y swyddogion fod nifer o gynghorau yn datblygu strategaethau trawsnewid o ganlyniad i fesurau cyni a phwysau cyllidebol, ac felly, fod trafodaethau wedi cael eu cynnal â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a grwpiau adran 151 er mwyn ystyried ffyrdd o gydweithio a chynorthwyo lle bo hynny'n bosibl.

Cododd yr aelodau bryderon ynghylch yr argymhelliad o ran Gwasanaethau Llywodraeth Leol i Gymunedau Gwledig, a hynny mewn perthynas â chefnogi'r broses o drosglwyddo asedau

cymunedol, a'r heriau y gallai hyn eu cyflwyno oherwydd cyllidebau sy'n crebachu a gwytnwch Cynghorau Tref a Chymuned i gynnal asedau allweddol. Sicrhawyd yr aelodau bod hyn yn rhan o Adroddiad Cenedlaethol ledled Cymru, lle gallai rhai argymhellion fod yn fwy perthnasol i Awdurdodau Lleol eraill, a dylid ystyried pob argymhelliad o ran ei berthnasedd a'i ffit.

Cafwyd trafodaethau ynghylch Rheoli Gwastraff, a nodwyd na fydd Caerffili, ar ôl cynnal adolygiad o wasanaethau, yn dilyn y 'glasbrint', a holodd yr Aelodau pa oblygiadau fyddai i hyn, gan fod y broses bresennol yn arwain at berfformiad ac ymateb rhagorol gan y preswylwyr. Esboniodd y Swyddog fod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu gwneud ar y gwaith a wnaed gyda ffocws ar gynyddu cyfranogiad, ac nid ar ragdybiaethau o'r 'glasbrint'.

Diolchodd aelodau'r Cabinet i'r Swyddog am y gwaith helaeth a wnaed, ac roeddent yn awyddus i weld adroddiadau cynnydd maes o law.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Trwy godi dwylo, cytunwyd yn unfrydol.

> PENDERFYNWYD y dylid cymeradwyo Adroddiad Gwella Blynyddol 2018-19 am y rhesymau a gynhwysir yn Adroddiad y Swyddog.

## 5. ADRODDIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL 2018-19

Cyflwynwyd Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2018-19 i'r Cabinet, sef adroddiad yn cyflwyno hunanasesiad blynyddol yr Awdurdod o'i berfformiad; ac roedd hefyd yn ceisio barn a chymeradwyaeth y Cabinet cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Cyngor ar 23 Hydref a'i gyhoeddi ar y Rhyngrwyd wedi hynny erbyn 31 Hydref 2019.

Mae'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol yn ofyniad statudol o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, mae'n rhan bwysig o fframwaith perfformiad y Cyngor. Mae'n ofynnol i'r Cyngor asesu ei berfformiad ei hun a rhoi darlun cytbwys o'r perfformiad hwnnw i'r cyhoedd. Yn ogystal, rhaid i'r Cyngor hefyd adrodd ar gynnydd ar y chwe Amcan Llesiant a osododd iddo'i hun yng Nghynllun Corfforaethol 2018-2023. Mae'r adroddiad blynyddol yn cynrychioli cynnydd y flwyddyn gyntaf o ran y cynllun pum mlynedd.

Yn ogystal, nodwyd bod gofyn i Swyddfa Archwilio Cymru wirio a yw awdurdod wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd statudol, a chyhoeddi 'tystysgrif cydymffurfio' mewn ymateb. Mae'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol yn dangos i Swyddfa Archwilio Cymru sut yr ydym wedi cyflawni ein dyletswydd.

Rhoddwyd cyflwyniad i'r Cabinet, a oedd yn amlinellu pob un o'r chwe Amcan Llesiant a'r cynnydd o gymharu â phob Amcan.

Nodwyd bod rhai o'r cyflawniadau allweddol o dan Amcan Llesiant 1 (Gwella Cyfleoedd Addysg i bawb) yn cynnwys: mae Ysbrydoli i Weithio wedi cefnogi 160 o bobl ifanc (16-24 oed), ac mae 95 ohonynt wedi ennill cymwysterau, 40 wedi ennill cyflogaeth a 9 wedi symud ymlaen i gyfleoedd dysgu pellach; llwyddwyd i gael cyllid gwerth £5.1 miliwn i ddarparu gofal plant ychwanegol erbyn 2021; llwyddwyd i gyflwyno'r Rhaglen Band A Ysgolion yr 21ain Ganrif sy'n werth £56.5 miliwn, ac mae'r prosiect a lansiwyd i fynd i'r afael â Thlodi Mislif wedi cael ei weithredu'n llwyddiannus mewn Ysgolion, mae Urddas yn ystod Mislif yn darparu cynhyrchion am ddim i ferched a menywod ifanc mewn ysgolion ledled y Fwrdeistref ac mae'r prosiect hefyd yn anelu at fynd yn ddi-blastig.

O dan Amcan Llesiant 2 (Galluogi Cyflogaeth), nodwyd bod Rhaglenni Cymunedau dros Waith wedi cefnogi 246 o bobl i gael cyflogaeth ledled y fwrdeistref; dadorchuddiodd y Fargen Ddinesig gynllun 5 mlynedd ar gyfer De Ddwyrain Cymru, gyda'r amcan economaidd drosfwaol i greu 250,000 o swyddi newydd; gwnaed gwaith helaeth gyda ffocws ar ryngweithio

â'r Gymuned Fusnes ac mae'r Adran Adfywio wedi cael ei hailstrwythuro, o ganlyniad i newidiadau o ran cyllido ac ansicrwydd ynghylch cyllid yr Undeb Ewropeaidd ar ôl Brexit.

Wrth ystyried Amcan Llesiant 3 (mynd i'r afael ag argaeledd, cyflwr a chynaliadwyedd cartrefi ledled bwrdeistref y sir a darparu cyngor, cymorth neu gefnogaeth i helpu i wella llesiant pobl), nodwyd bod 6,166 o gartrefi wedi'u cwblhau o dan y rhaglen Safon Ansawdd Tai Cymru; mae ymweliadau â chartrefi wedi arwain at £628,000 o incwm ychwanegol i denantiaid; benthyciadau a grantiau sy'n dod i gyfanswm o tua £794,000 i wella cartrefi perchen-feddiannydd a llwyddwyd i atal 471 o aelwydydd rhag dod yn ddigartref yn 2018-19. Yn ogystal, nododd y Cabinet fod y gwaith o ran y rhaglen Safon Ansawdd Tai Cymru ar y trywydd iawn i gael ei gwblhau erbyn mis Mehefin 2020, fodd bynnag ar ôl 2020, gallai fod angen gwneud gwaith ychwanegol o dan agendâu Effeithlonrwydd Ynni. Mae gwaith hefyd ar y gweill i gynyddu nifer y cartrefi fforddiadwy ledled y fwrdeistref, ynghyd â lleihau nifer yr eiddo gwag, a'u dychwelyd i gylchrediad a sicrhau eu bod yn addas at y diben.

Dangosodd Amcan Llesiant 4 (Hyrwyddo system drafnidiaeth fodern, integredig a chynaliadwy sy'n cynyddu cyfle, yn hyrwyddo ffyniant ac yn lleihau'r effeithiau andwyol ar yr amgylchedd) fod yr Awdurdod yn parhau i chwarae rhan flaenllaw wrth lunio a chyflawni'r rhaglen uchelgeisiol, y Fargen Ddinesig, a fydd yn darparu pecyn pellgyrhaeddol o fuddion i'r rhanbarth, gwerth cyfanswm o £1.2 biliwn o fuddsoddiad; rydym ymhlith y cyntaf yng Nghymru i gael ein Llwybrau Teithio Llesol a'n Mapiau Rhwydwaith Integredig wedi'u cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru, a bydd Cyfnewidfa Caerffili yn ganolbwynt cludiant ar ben Tref Caerffili i ddarparu mynediad at fysiau, coetsis, trenau a chysylltiadau cludiant eraill i ardaloedd/rhanbarthau eraill. Esboniodd y swyddogion mai buddsoddiadau hirdymor yw'r rhain, sy'n cynnwys nifer o asiantaethau partner er mwyn gwella cysylltiadau cludiant a hygyrchedd ledled y Fwrdeistref, yn ogystal â diwallu anghenion amgylcheddol, megis rhoi pwyntiau gwefru cerbydau trydan ar waith.

Wrth drafod Amcan Llesiant 5 (Creu Bwrdeistref Sirol sy'n cefnogi ffordd iach o fyw) nodwyd y bu 1.5 miliwn o ymweliadau â pharciau a chefn gwlad, sef y lefel uchaf a gofnodwyd hyd yma, a'r gweithgaredd mwyaf poblogaidd oedd cerdded; mae 40% o ferched bellach yn cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol o leiaf deirgwaith yr wythnos, ac mae 71% o ferched yn hyderus i roi cynnig ar weithgareddau newydd; mae mabwysiadu Strategaeth Chwaraeon a Hamdden Egnïol Caerffili (2019-29) ym mis Tachwedd 2018 yn garreg filltir arwyddocaol, a chymerodd 84,000 o bobl ran yng ngweithgareddau Chwaraeon Caerffili.

Cyfeiriodd y swyddogion at Amcan Llesiant 6 (Cefnogi dinasyddion i aros yn annibynnol a gwella eu lles) a nodwyd mai'r canlyniadau allweddol oedd cefnogi pobl i'w helpu eu hunain trwy ddarparu cyngor a gwybodaeth, gan gynnwys cyfeirio at wasanaethau eraill; cael sgyrsiau ystyrlon i helpu pobl i nodi 'yr hyn sy'n bwysig' iddynt er mwyn llywio 'eu dewisiadau'; rydym wedi buddsoddi yn y system DEWIS Cymru, sef adnodd cymorth ar-lein a all eich helpu i feddwl am yr hyn sy'n bwysig i chi, ac sy'n rhoi gwybodaeth am y bobl a'r gwasanaethau yn eich ardal.

Trafododd y Cabinet y Gymhariaeth o ran Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus 2019-20, a nodwyd bod 35 o Fesurau i gyd, a gellir cymharu 19 ohonynt ar hyn o bryd ledled Cymru, yn ogystal â'r safle. O'r rheini, gallwn gymharu 14 flwyddyn ar ôl blwyddyn â'n perfformiad yn y flwyddyn flaenorol. Gan fod llawer o'r 35 o fesurau wedi'u cymryd o setiau data cenedlaethol eraill, sydd â'u hamserlenni eu hunain, ni fydd llawer ar gael i'r set Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus tan ddiwedd 2019.

Diolchodd y Cabinet i'r Swyddogion am yr adroddiad a'r cyflwyniad a chafwyd trafodaeth ddilynol.

Wrth drafod Amcan Llesiant 2, cododd yr Aelodau bryderon ynghylch y broses cyllid grant a sicrwydd i'r staff, sy'n darparu cymorth rhagorol i gymunedau, ond sy'n cael eu gadael yn ansicr flwyddyn ar ôl blwyddyn ynghylch cyllid a sicrwydd eu swyddi o ganlyniad i gyllid grant. Mynegodd y swyddogion eu rhwystredigaeth eu hunain, a sicrhawyd yr Aelodau bod sylwadau

wedi'u cyflwyno i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac yng nghyfarfodydd Swyddogion Adran 151, gyda'r nod o lobïo llywodraeth ganolog.

Trafododd yr aelodau ddata Cymhariaeth Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus 2019-20, a gofynnwyd am wybodaeth bellach am y camau a fyddai'n cael eu cymryd i wella perfformiad o ran elfennau o'r data, ac a ellid darparu'r wybodaeth hon fel sicrwydd mewn adroddiadau yn y dyfodol a chyn ei chyflwyno i'r Cyngor. Nododd y swyddogion hyn a chytunwyd i roi diweddariadau lle bo hynny'n bosibl.

Roedd y Cabinet yn falch o nodi'r cynnydd yn yr adroddiad a'r camau sy'n sail i'r rhaglen drawsnewid, a mynegwyd eu diolch i'r holl staff a fu'n ymwneud â llunio'r adroddiad a'r data ynddo.

Yn sgil ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Trwy godi dwylo, cytunwyd yn unfrydol.

> PENDERFYNWYD y dylid cymeradwyo Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2018-19 am y rhesymau a gynhwysir yn Adroddiad y Swyddog.

## 6. DULL O GYFLAWNI'R FENTER NOFIO AM DDIM AR GYFER OEDOLION HŶN A ARIENNIR GAN LYWODRAETH CYMRU

Roedd yr adroddiad yn rhoi gwybod i'r Cabinet am y newidiadau a fydd yn cael eu cyflwyno o ran y Fenter Nofio Am Ddim a ariennir gan Lywodraeth Cymru, a ddarperir ledled portffolio canolfannau hamdden y Cyngor, ac roedd yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i gyflwyno strwythur prisio ar gyfer oedolion hŷn (60+) sy'n gwrthbwyso'r gostyngiad yn y cyllid gan Lywodraeth Cymru, a gymhwysir i'r Cyngor yn rhan o'r newidiadau i'r ffordd y darperir y Fenter Nofio Am Ddim.

Yn dilyn adolygiad annibynnol o'r Fenter Nofio Am Ddim a ariennir gan Lywodraeth Cymru, mae cynllun newydd wedi'i ddatblygu sy'n newid ffocws y cynllun presennol ac yn rhoi pwyslais newydd ar ddarparu nofio am ddim i blant dan 16 oed o ardaloedd o amddifadedd yn hytrach na darparu nofio am ddim i oedolion hŷn, sef y rheiny dros drigain (60) oed yn ôl y cynllun cyfredol.

Nodwyd bod y cynllun newydd wedi'i gyflwyno gyda gostyngiad a diwygiad sylweddol o ran y ffordd y dyrennir cyllid i gefnogi'r gwaith o ddarparu'r cynllun.

Cyfanswm y cyllid a ddyrannwyd yn flaenorol i Gaerffili i ddarparu'r Fenter Nofio Am Ddim oedd £213,300. O dan ddarpariaethau'r cynllun newydd, darparwyd 100% o'r cyllid i bob awdurdod lleol ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill a mis Medi 2019, a dyrannwyd 50% ar gyfer y cyfnod rhwng mis Hydref 2019 a mis Mawrth 2020. Mae'r newid hwn yn cyfateb i ostyngiad o oddeutu £53,325 mewn cyllid.

O fis Ebrill 2020, cyfanswm dyraniad y gyllideb i gefnogi'r gwaith o ddarparu'r Fenter Nofio Am Ddim newydd fydd £106,650, sef gostyngiad o 50% yn y gyllideb.

Nododd y Cabinet fod newid pellach i'r dyraniad cyllid wedi'i gyflwyno i gefnogi pob awdurdod lleol i ddarparu'r cynllun newydd, a hynny trwy ddarparu cyllideb gyfalaf am gyfnod o 18 mis o fis Hydref 2019. Cyfanswm y dyraniad cyfalaf hwn i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yw oddeutu £71,100. Diben yr arian hwn yw cefnogi gwelliannau i gyfleusterau, cefnogi datblygiadau a phrynu offer priodol.

Mae'r newid o ran ffocws y cynllun newydd, ynghyd â'r gostyngiad yn y cyllid i'w gefnogi, yn golygu y bydd angen i'r Gwasanaethau Chwaraeon a Hamdden ddatblygu strwythur prisio newydd sy'n cefnogi mynediad cymorthdaledig parhaus i nofio i oedolion hŷn (60+).

Er mwyn cefnogi'r newid o ran ffocws y cynllun newydd, roedd yn ofynnol i bob awdurdod lleol gyflwyno cynnig cyflawni a oedd yn amlinellu sut y byddai'r cynllun yn cael ei ddarparu, pa ddarpariaeth fyddai ar waith i gefnogi amcanion allweddol y cynllun, a sut y byddai hyn yn cael ei gyfleu i bob rhanddeiliad. Roedd y cynllun cyflawni ar gyfer Caerffili ynghlwm yn Atodiad 1 i'r adroddiad.

Diolchodd y Cabinet i'r Swyddogion am yr adroddiad a chafwyd trafodaeth.

Er bod Aelodau'r Cabinet yn cydnabod y bydd y cynllun ar gyfer pobl ifanc o dan 16 oed yn darparu buddion a chyfleoedd i blant mewn ardaloedd o amddifadedd, mynegwyd siom bod Llywodraeth Cymru wedi dileu'r ddarpariaeth ar gyfer pobl 60+, a gofynnwyd am wybodaeth bellach am y niferoedd a oedd yn defnyddio'r cynllun. Esboniodd y swyddogion, er bod nifer y defnyddiwr 60+ rheolaidd yn isel (591, sy'n cyfateb i 1.4% o boblogaeth 60+ Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a dim ond 6% ledled Cymru), eu bod yn ddefnyddwyr ffyddlon sy'n dibynnu ar y ddarpariaeth nofio am ddim. Fodd bynnag, sicrhawyd yr aelodau y gallai'r strwythurau prisio arfaethedig fod yn addas i unigolion.

Cafwyd trafodaethau ynghylch yr opsiynau arfaethedig yn yr adroddiad, a holodd yr Aelodau a fyddai opsiynau i ddefnyddwyr dalu trwy ddebyd uniongyrchol neu dalu wrth ddefnyddio. Esboniodd y swyddogion mai'r opsiwn a oedd yn cael ei ffafrio oedd Opsiwn 4, a oedd yn darparu lefel uchel o gymhorthdal i oedolion hŷn, ac a fyddai'n galluogi defnyddwyr i dalu trwy ddebyd uniongyrchol neu i dalu wrth fynd.

Mynegodd yr Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol a Lles ei siom y byddai'r Fenter yn newid, gan fod y Fenter Nofio Am Ddim i Oedolion Hŷn yn helpu i hyrwyddo annibyniaeth, iechyd a lles, ac yn cynorthwyo i leihau nifer y bobl hŷn sy'n gorfod dibynnu ar Wasanaethau i Oedolion. Cafwyd trafodaethau ynghylch y broses o hyrwyddo'r Fenter ac a oedd yr Ymarferwyr Iechyd priodol yn cefnogi'r cynllun. Esboniodd y swyddogion fod posteri ar gael i ysbytai a meddygfeydd ledled y fwrdeistref, ond bod yna Swyddog Marchnata, Ymgysylltu a Chyfathrebu pwrpasol erbyn hyn, a fydd yn gweithio i hyrwyddo'r cynlluniau newydd i'r gynulleidfa darged. Yn ogystal, gofynnwyd i'r cyfathrebiadau fod yn glir i drigolion y Fwrdeistref nad yw'r cyllid wedi cael ei dorri gan yr Awdurdod Lleol.

Holodd un o'r Aelodau a fydd gan y newidiadau hyn oblygiadau o ran y ddarpariaeth Aqua-fit ledled y Fwrdeistref. Esboniodd y swyddogion fod y ddarpariaeth yn rhad ac am ddim o dan y Fenter, ac y bydd yn parhau i fod felly i'r rheiny sy'n defnyddio'r ddarpariaeth yn dilyn Atgyfeiriad Iechyd gan Feddyg Teulu; fodd bynnag, byddai'n ofynnol i ddefnyddwyr nad ydynt wedi cael atgyfeiriad dalu'r gost gymorthdaledig am ddosbarthiadau pe na fyddent am fanteisio ar yr opsiwn aelodaeth fisol.

Trafododd Aelodau'r Cabinet bob un o'r opsiynau yn yr adroddiad ac roeddent yn awyddus i gefnogi Opsiwn 4.

Roedd y Prif Weithredwr yn dymuno i welliant gael ei wneud i'r argymhelliad yn 3.1 ii) yn yr adroddiad, sef y dylai'r strwythur prisio newydd fod yn unol â phrosesau cytunedig y Cyngor ar gyfer cyflwyno Ffioedd a Thaliadau.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, ac wrth nodi'r diwygiad i'r argymhelliad ii) cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Trwy godi dwylo, cytunwyd yn unfrydol.

> PENDERFYNWYD, am y rhesymau a gynhwysir yn Adroddiad y Swyddogion, wrth gefnogi Opsiwn 4 yn yr adroddiad ac yn ddarostyngedig i'r diwygiad i'r argymhelliad *(ii)* fel yr amlinellwyd yn y cyfarfod:
>
> i) y dylid nodi'r newidiadau i'r broses o ddarparu'r Fenter Nofio Am Ddim a Ariennir gan Lywodraeth Cymru ledled y portffolio o byllau nofio yn y fwrdeistref sirol;

ii) y dylid cymeradwyo'r penderfyniad i gyflwyno strwythur prisio newydd *(ar yr amod ei fod yn cyd-fynd â phrosesau cytunedig y Cyngor ar gyfer cyflwyno Ffioedd a Thaliadau)* sy'n parhau i gefnogi mynediad cymorthdaledig at nofio i oedolion hŷn (60+) ac sy'n mynd i'r afael â'r bwlch cyllido sy'n gysylltiedig â pharhau i ddarparu'r fenter nofio am ddim;

iii) bod y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai a'r Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol a Lles yn cysylltu ag Iechyd Cyhoeddus Cymru ynghylch cyfleoedd ychwanegol i hyrwyddo gweithgarwch corfforol ymhlith pobl hŷn.

## 7. PROSIECT ANSAWDD AER HAFOD-YR-YNYS – CAFFAEL EIDDO AC ARIANNU IAWNDAL

Roedd yr adroddiad yn rhoi gwybod i'r Cabinet am y trefniadau ariannol sy'n gysylltiedig â'r caffaeliad gwirfoddol neu'r prynu gorfodol o ran eiddo yn Hafod-yr-ynys i'w dymchwel er mwyn sicrhau cydymffurfiad â Chyfarwyddeb Ansawdd Aer yr Amgylchedd, yn unol â'r Cyfarwyddyd Ansawdd Aer a roddwyd i'r Awdurdod gan Lywodraeth Cymru.

Yn ogystal, roedd yr adroddiad yn ceisio cytundeb y Cabinet i neilltuo cyllid mewn cronfa wrth gefn a glustnodwyd o danwariant rhagamcanol cyllideb refeniw Iechyd yr Amgylchedd ar gyfer blwyddyn ariannol 2019-20, i gynorthwyo â chaffael eiddo a phecyn iawndal i drigolion a pherchnogion eiddo yn Hafod-yr-ynys.

Atgoffwyd y Cabinet bod lleoliadau derbynyddion ar Ffordd Hafod-yr-ynys yn mynd y tu hwnt i amcanion ansawdd aer nitrogen deuocsid cenedlaethol. Ym mis Chwefror 2018, cafodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili Gyfarwyddyd Ansawdd Aer gan Lywodraeth Cymru i gynnal astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer yr ardal, ac i bennu pa opsiwn neu fasged o opsiynau a ffefrir er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth ag amcanion ansawdd aer Cyfarwyddeb Ansawdd Aer yr Amgylchedd yn 'yr amser byrraf posibl'.

O ganlyniad, ar 31 Gorffennaf 2019, rhoddodd Llywodraeth Cymru Gyfarwyddyd newydd i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, 'Cyfarwyddyd Ansawdd Aer Deddf yr Amgylchedd 1995 (Astudiaeth Ddichonoldeb ar gyfer Cydymffurfedd Nitrogen Deuocsid) 2019'. Mae'r Cyfarwyddyd yn nodi y dylai'r opsiwn dymchwel fynd yn ei flaen ar unwaith a heb oedi. Er mwyn lleihau'r risg y byddai preswylwyr yn dioddef anfantais ariannol a chaledi, cynigiodd y Cabinet y byddai'r eiddo'n cael ei brynu am 150% o werth y farchnad gyda thaliad am golli cartref wedi'i osod ar 10% o'r prisiad gwreiddiol.

Mae'r prisiadau a wnaed yn dangos y bydd y gost o brynu'r holl eiddo dan sylw am 150% o werth y farchnad, gyda thaliad am golli cartref o 10% (lle bo hynny'n briodol) yn dod i gyfanswm o oddeutu £2.770 miliwn. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru bellach wedi cynghori y dylid gweithredu'n unol â'r Cod Iawndal er mwyn dangos gwariant cyhoeddus rhesymol o fewn canllawiau ariannol. Er ei bod yn dderbyniol defnyddio gwerthoedd sy'n adlewyrchu senario dim cynllun, h.y. cyn dod i ddeall am y broblem llygredd, mae hyn yn cynyddu gwerthoedd i 130% o werth y farchnad yn hytrach na 150%; ynghyd â Thaliad am Golli Cartref sy'n 10% o'r gwerth (130%). Byddai hyn yn arwain at ddiffyg o oddeutu £268,000 yng nghyllid Llywodraeth Cymru er mwyn prynu'r eiddo. Gofynnwyd i Lywodraeth Cymru ystyried ariannu taliad llesiant atodol dewisol i wneud iawn am y diffyg.

Mae adran 2 (1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 yn rhoi pŵer dewisol eang i awdurdod lleol wneud unrhyw beth y mae'n credu sy'n debygol o hyrwyddo neu wella lles amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol ei ardal a'r bobl yn yr ardal honno, neu'r naill neu'r llall. Ar hyn o bryd, mae Gwasanaeth Iechyd yr Amgylchedd yn rhagamcanu tanwariant cyllideb refeniw net o £296,000 ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol. Felly cynigir bod £268,000 o'r tanwariant rhagamcanol hwn yn cael ei roi o'r neilltu mewn cronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi i ariannu'r

taliad llesiant atodol dewisol i breswylwyr os na fydd Llywodraeth Cymru yn cytuno i ariannu'r diffyg.

Diolchodd y Cabinet i'r Swyddog am yr adroddiad a chafwyd trafodaeth.

